Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Gwdi Hw

**Ystad Penrhiw**
**Brynithel**
**Abertillery**
**Blaenau Gwent**
**NP13 2GZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Gwdi Hw

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Gwdi Hw |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Leanne Marsh |
| Person â gofal | Zoe Powell |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 blwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 1 plentyn |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 plentyn |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 i 14:45 Dydd Llun i Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13 Medi 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/11/2023 |
| Ychydig o blant sydd wedi cael profiadau blaenorol o'r iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Person â Gofal newydd ddechrau ei rôl ers Medi 2023 | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Ehangu ar y cyfleoedd i'r plant chwarae a dysgu'n annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus iawn o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn frwdfrydig, yn mwynhau'r gweithgareddau addas sydd ar gael, ac yn rhyngweithio'n dda iawn gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n syth ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Dangosa bron pob plentyn hoffter tuag at eu hymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus wrth adael eu rhieni a gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn â phlant eraill. Er enghraifft, maent yn rhannu potiau a llwyau yn y gegin fwd tu allan. Dangosa'r plant hunan-falchder yn eu gwaith trwy fynd at ymarferwyr i ddangos eu gwaith peintio. Maent yn gwrando ar gyfarwyddyd ymarferwyr yn dda, gan ymateb yn hapus wrth dderbyn clôd, er enghraifft am roi cot ar y bachyn yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus gan ddewis gweithgareddau o'u diddordeb. Maent yn mwynhau chwarae gydag adnoddau dŵr ac yn cyffroi wrth ychwanegu reis i wneud patrymau. Mae eraill yn mwynhau creu cacennau mwd gan egluro mai i Mam a Dad yr oeddent yn gwneud y gacen. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus. Maent yn dewis diodydd, byrbryd iachus ac yn dewis ble i eistedd adeg bwyd. Mae mwyafrif y plant yn dangos sgiliau gwrando a chyfathrebu effeithiol trwy siarad neu gyfathrebu di-eiriau. Maent yn pwyntio at adnoddau ac ardaloedd o'u dewis, neu yn dweud wrth ymarferwyr am eu dewisiadau. Mae'r plant yn gwrando ar ymarferwyr yn dda pan maent yn eu hannog i wisgo eu cotiau neu olchi eu dwylo cyn bwyd.

Mae mwyafrif y plant yn canolbwyntio am amser gynyddol. Maent yn cymryd eu hamser i adeiladu trac trên yn annibynnol ac yn teimlo'n hyderus i symud yr adnoddau i ardaloedd chwarae gwahanol. Mae'r plant yn frwdfrydig wrth chwarae ar

feiciau, gan rasio ei gilydd a mynd i'r 'siop' i siopa am ffrwythau a llysiau yn yr ardaloedd tu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd gan rannu a chymryd tro wrth chwarae gydag adnoddau cegin fwd. Maent yn ymateb yn dda i dechnegau'r ymarferwyr pan eglurwyd iddynt ei bod yn bwysig rhannu'r powlenni a llwyau. Wrth ddathlu llwyddiant, mae'r plant yn ymfalchïo yn eu gwaith creadigol wrth beintio blodau fel anrheg i'r teulu ac yn dangos rhain i'w cyfoedion ac ymarferwyr.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau annibynnol priodol. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau adeiladu, chwarae rôl, gwaith crefft a chreadigol yn fwriadus. Mae mwyafrif y plant yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach a gwisgo eu cot eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, yn cynnwys helpwr heddiw, yn ogystal â neidio, dawnsio, a thrin a gosod offer. Maent yn datblygu medrau mathemategol da ac yn adnabod rhai lliwiau, enwau anifeiliaid a chyfri yn llwyddiannus. Maent yn cydio mewn llyfrau yn aeddfed ac yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol drwy arbrofi a chwarae.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae perthynas agos iawn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, hoffterau a'u gofynion personol. Mae'r ymarferwyr yn gadael i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain yn yr ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant trwy gynllunio tasgau yn unol â'u diddordebau. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ehangu eu dealltwriaeth o iaith lafar ac yn datblygu eu dychymyg yn llwyddiannus. Maent yn cyfathrebu yn effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clôd iddynt yn effeithiol, er enghraifft pan yn gwisgo cot yn annibynnol neu wedi iddynt gwblhau darn o waith celf. Maent yn rhoi cyfleoedd da i blant ddatblygu eu hannibyniaeth drwy eu hannog i arllwys diod a dewis eu bwydydd yn ogystal â chasglu a dychwelyd eu cwpanau a phlatiau amser bwyd. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd ardderchog i arbrofi gyda cynhwysyddion a dŵr, yn ogystal â defnyddio pridd, dail, brigau a phorfa er mwyn creu cacennau a coginio dychmygol.

Mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant i ddeall eu hemosiynau yn dda, er enghraifft yn ystod amser cylch maent yn hunan-gofrestru eu hemosiynau personol. Maent yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at blant wrth gyrraedd pob bore. Mae ymarferwyr yn cynnig ystod dda o weithgareddau a phrofiadau sydd yn datblygu gallu'r plant i gyd-chwarae yn briodol yn yr ardal tu fewn a thu allan. Mae'r ymarferwyr yn gyson a thêg wrth reoli ymddygiad plant ac yn fodelau rôl cadarnhaol iddynt. Maent yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r angen i rannu ac i fod yn garedig tuag at eraill. Maent yn dangos i blant sut mae golchi dwylo yn effeithiol.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda am anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cwblhau proffiliau personol a chynlluniau addysg unigol er mwyn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn am weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbwl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn ymarferwyr cwblhau asesiadau risg effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr ymarferwyr berthynas gyfeillgar gyda'r plant ac maent yn eu cefnogi a'u hannog yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynllunio profiadau diddorol sy'n datblygu'r plant i fod yn archwilwyr hyderus a gofalgar yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd iddynt arsylwi ar natur, i dyfu planhigion a llysiau, ac i ystyried a pharchu eraill.

Mae'r ymarferwyr yn parhau i fyfyrio ar ac addasu eu harfer mewn perthynas ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn datblygu gweithdrefnau asesu effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio camau nesaf yn addysg plant yn bwrpasol. Wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant mae'r ymarferwyr yn addysgu yn effeithiol ac yn aml yn gofyn cwestiynau sy'n annog plant i feddwl a darganfod drostynt eu hunain. Er enghraifft, pan mae'r plant yn chwarae yn y twba dŵr, mae ymarferwyr yn gofyn cwestiynau agored effeithiol iddynt er mwyn datblygu eu iaith fathemategol a'u medrau rhesymu. Fodd bynnag, mae'r ymarferwyr yn tueddu i or-arwain y dysgu sy'n aml yn llesteirio cyfleoedd i'r plant gymhwyso eu medrau yn annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi medrau llythrennedd cynnar y plant yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar wella medrau siarad y plant trwy ailadrodd geirfa ac ymadroddion, ac yn eu hysgogi i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau. Mae arfer cyson yr ymarferwyr o annog plant i ddefnyddio medrau rhifedd i gyfrif a didoli gwrthrychau, enwi siapiau a chymharu meintiau gwahanol wrthrychau yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol plant yn brin.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau i blant ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i arbrofi gyda thoes, paratoi prydau yn y gegin fwd, defnyddio amrywiaeth o offer i adeiladu, ac i reidio beiciau yn gelfydd o amgylch rhwystrau yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol llwyddiannus ymysg y plant. Maent yn annog plant i gymryd eu tro, i ddweud os gwelwch yn dda a diolch er mwyn deall pwysigrwydd rhannu a chwrteisi. Maent yn hyrwyddo diwylliant Nadolig'n dda trwy astudio hanes Dewi Sant, ac wrth ddathlu amrywiaeth yn briodol trwy ystyried traddodiadau a gwyliau arbennig yn ystod y flwyddyn, fel Diwali, Pasg, Nadolig, penblwydd Dewin a Doti a diwrnod Mr Urdd.

Gwneir defnydd buddiol o'r gymuned, gyda'r ymarferwyr yn mynd â'r plant am dro i'r capel a'r parc ac ymweld â'r cae a'r fferm i arsylwi natur. Mae'r cyfleoedd hyn yn dechrau creu ymwybyddiaeth glir i'r plant o'u cynefin.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant yn barhaus. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli yn effeithiol iawn. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posib a'r camau sydd yn cael eu cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes peryglon amlwg yn bodoli.

Mae'r lleoliad yn hollol ddiogel, yn groesawgar, yn gynnes ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn effeithiol dros ben. Mae'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn ddi-dor yn annog chwilfrydedd y plant wrth iddynt fedru symud o gwmpas yn rhydd ac yn hwylus. Mae'r ardal fewnol ac allanol wedi eu trefnu yn hynod o ofalus a phwrpasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau i gyfoethogi'r profiadau yn llwyddiannus. Mae ystod o adnoddau ac offer naturiol ar gael sydd yn cynnwys blodau, dail, a bwydydd sych megis reis a blawd yn cyfoethogi ac ehangu profiadau plant ac yn eu galluogi i ddatblygu eu dychymyg. Mae'r ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol a chyffrous i blant. Er enghraifft, ardaloedd garddio, adeiladu, darllen, peintio a marcio, beicio, cegin fwd. Mae'r ardaloedd sydd yn datblygu chwilfrydedd y plant yn cynnwys darnau rhydd, profiadau archwilio a darganfod, gwyddonol a chreadigol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod dewis helaeth o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael. Mae'r rhain o ansawdd uchel ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau hynod o dda ar gael er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr wedi creu gweledigaeth glir sy'n llywio cyfeiriad pwrpasol i weithdrefnau'r lleoliad. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar sicrhau darparu gwasanaeth o safon uchel o ran llês, gofal a dysgu'r plant. Mae arweinwyr yn creu awyrgylch cadarnhaol o waith tîm ar draws y lleoliad ac mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd yn dda. O ganlyniad mae ethos gartrefol, hapus a chroesawgar yn bodoli.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn briodol ac yn rhoi darlun cywir o'r hyn a gynigir ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae gweithdrefnau recriwtio ac addasrwydd staff yn gyflawn. Mae hunan arfarnu cadarn yn effeithio yn dda ar arferion y lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad, ac o ganlyniad, mae'r gweithdrefnau yn effeithio'n briodol ar greu gwelliannau pwrpasol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi nodi pwysigrwydd datblygu medrau ieithyddol Cymraeg eu hunain, a gwrando'n ofalus ar lais y plentyn i lywio'r ddarpariaeth yn ôl diddordebau'r plant.

Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr yn gydwybodol trwy eu gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau atebolrwydd yr holl ymarferwyr o ran safon y ddarpariaeth a deilliannau plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu’n broffesiynol.

Mae arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau buddiol ag ystod o bartneriaid sy’n cefnogi ac yn gwella ansawdd y ddarpariaeth a’r deilliannau ar gyfer plant yn briodol. Er enghraifft, mae gan y lleoliad gysylltiad cadarnhaol gyda’r ysgol leol sy’n cynorthwyo trosglwyddo yn effeithiol iawn.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau ac yn blaenoriaethu gwariant cyllideb a grantiau yn erbyn targedau yn synhwyrol. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr gymwysterau da a'u bod yn elwa ar hyfforddiant bwriadus, sy’n gwella’u harferion asesu a’u cynllunio i fodloni anghenion y plant. O ganlyniad, mae penderfyniadau'r lleoliad yn hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr i'r plant.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/01/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 19 Ionawr 2024